# Adroddiad Profiad Ysgol Enghreifftiol

Cyfeiriwch at y canllawiau wrth lenwi'r ffurflen

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Athro Cyswllt** | Harry Smith | | **Ysgol** | Bryn Wnion | |
| **Mentor** | Dafydd Jones | | **Y Prif Fentor** | Non Davies | |
| **Dyddiad dechrau** | 2/9/19 | | **Dyddiad gorffen** | 5/6/19 | |
| **Ystod oedran** | 3 - 7 | | 7-11 | **11-16** | 11-18 |
| **Nifer yr absenoldebau yn ystod y PY** | **3** | | **Nifer yr absenoldebau o Seminarau'r Ysgol Arweiniol** | | **1** |

| **Dosbarth** | **Blwyddyn** | **Pwnc (gan gynnwys ABCh)** | **Cyrhaeddiad (set)** | **Amser wythnosol** |
|---|---|---|---|---|
| YD | 7 | Mathemateg | Gallu cymysg | 2:30 |
| | 8 | Mathemateg | Set 2 | 2:30 |
| | 9 | Mathemateg | Set 4 | 2:30 |
| Athro/athrawes dosbarth | | Cyfrifoldebau wedi'u rhannu (3 bore'r wythnos) 7YD | | |
| Gweithgareddau allgyrsiol | | Cerddorfa'r ysgol, dosbarthiadau adolygu blwyddyn 11 | | |

**Addysgeg: Mireinio'r Addysgu** — Crynodeb o'r llwyddiannau a'r meysydd i'w datblygu

*Mae Harry wedi meithrin perthynas **dda** gyda'r rhan fwyaf o ddysgwyr (yn enwedig blwyddyn 7) ac mae'n gallu ymateb **yn briodol** pan eu bod yn camddeall neu'n cam-dybio.*

*Mae ymddygiad y dysgwyr **yn dda** ym mlwyddyn 7 ond **mae angen** mabwysiadu strategaethau ymddygiad cadarnhaol i gynnwys dysgwyr hŷn (mae hyn yn gysylltiedig â gwahaniaethu'n well a her briodol).*

*Mae'n defnyddio ystod **foddhaol** o strategaethau asesu ac mae angen mireinio'r gwaith o gynllunio ar gyfer cwestiynu, yn enwedig ar ddiwedd y wers (gweler y sylwadau yn y safon nesaf ar weithgareddau cloi).*

*Wrth wahaniaethu rhwng deunyddiau, mae'n tueddu i ddibynnu ar waith ychwanegol; nid yw dysgwyr mwy abl a thalentog (MAT) bob amser yn gorffen y dasg gyntaf, felly **nid yw hyn bob amser yn effeithiol.***

*Mae cofnodion ei asesiadau wedi eu diweddaru **rhan amlaf** ac yn unol â'r polisi ysgol ond **nid ydynt yn cael eu defnyddio** i nodi anghenion dysgwyr nac i lywio cynlluniau gwersi.*

*Mae wedi arsylwi mewn noson rieni a **byddai'n elwa** o gyfrannu'n llawn a siarad â rhieni.*

**Targedau**

- *Datblygu strategaethau rheoli ymddygiad ar gyfer disgyblion hŷn (CA4)*
- *Sicrhau bod tasgau o her addas i ddysgwyr is eu cyrhaeddiad a dysgwyr MAT*
- *Ymchwilio i sut i gynllunio'n fwy effeithiol ar gyfer cwestiynu **(Dysgu Proffesiynol)***

**Addysgeg: Gwybodaeth o'r Pwnc a'i Ddisgyblaeth** — Crynodeb o'r llwyddiannau a'r meysydd i'w datblygu

*Mae gan Harry wybodaeth ardderchog am yr holl gynnwys mathemateg ond mae angen iddo wneud mwy o ddefnydd o gynrychiolaethau corfforol a gweledol wrth addysgu rhif ac algebra (e.e. llinellau rhif ar gyfer degolion).*

*Mae ei ddefnydd o waith pâr mewn gwersi yn dechrau ysgogi trafodaeth effeithiol a dylai edrych yn awr ar ddysgu gyda gwaith grŵp.*

*Mae ei gynllunio fel arfer yn dda ac mae ei ddefnydd o gyd-destun yn effeithiol; nid yw wedi cynllunio'n ddigonol ar gyfer y Fframwaith Cymhwysedd Digidol.*

*Fel y nodwyd uchod, mae angen iddo ystyried dilyniant yn fanylach a sicrhau bod digon o gymorth ar gael i bob dysgwr.*

*Gellid datblygu ei ddefnydd o gyd-destun ymhellach drwy weithio gyda phynciau eraill ar draws y cwricwlwm; er enghraifft defnyddio data Addysg Gorfforol i edrych ar gydberthyniad a llinellau ffit gorau.*

**Targedau**

- *Defnyddio modelau i gynrychioli rhifau a newidynnau*
- *Datblygu cymhwysedd digidol dysgwyr*

*Datblygu gwaith trawsgwricwlaidd i wella cyd-destun.*

| **Addysgeg: Dylanwadu ar Ddysgwyr** | Crynodeb o'r llwyddiannau a'r meysydd i'w datblygu |
|---|---|

*Mae gan Harry ddisgwyliadau uchel o'r rhan fwyaf o ddysgwyr ond nid yw'r rhain bob amser yn amlwg wrth addysgu dysgwyr hŷn.*

*Mae'n ennyn brwdfrydedd dysgwyr iau ac yn cynllunio gweithgareddau atyniadol ond mae angen iddo wneud mwy o ddefnydd o fideos, er enghraifft, i ddangos sut a ble y gellir defnyddio mathemateg yn y byd go iawn (gyda dysgwyr hŷn).*

*Mae'n gwrando ac yn ymateb yn dda i gamgymeriadau dysgwyr ar sail un i un, ond mae angen ymestyn hyn i drafodaethau â'r dosbarth cyfan.*

*Mae angen datblygu clo'r wers yn sylweddol; bydd hyn yn galluogi'r dysgwyr i adfyfyrio a hunanasesu'n fwy effeithiol.*

*Mae'n gefnogol o bob dysgwr ac yn gwerthfawrogi gwaith caled; bellach, mae arno angen dull mwy strwythuredig o ymdrin â gwaith grŵp er mwyn cymell mwy o gydweithredu.*

**Targedau**

- *Rhannu disgwyliadau dysgu ac ymddygiad gyda dysgwyr hŷn.*
- *Cynllunio'n fanylach ar gyfer gweithgareddau cloi (cysylltwch â'r cwestiynu uchod) a chynllunio ar gyfer hunanasesu ac asesu cyfoedion.*
- *Ymchwilio i'r defnydd o fideos etc. i fywiogi'r cyd-destun ac ennyn diddordeb dysgwyr.*
- *Sicrhau bod gwaith grŵp yn strwythuredig ac yn gydweithredol.*

| **Cydweithio** | Crynodeb o'r llwyddiannau a'r meysydd i'w datblygu |
|---|---|

*Mae Harry wedi gweithio'n effeithiol gyda'r mentor a'r uwch fentor; dylai yn awr geisio bod yn fwy rhagweithiol a dechrau cysylltu â'r ysgol ehangach y flwyddyn nesaf.*

*Mae wedi gwella ei ymarfer gyda blwyddyn 7 yn sylweddol gan ddilyn cyngor; mae hyn yn gryfder.*

*Mae addysgu gwersi ar y cyd wedi bod yn effeithiol; mae angen mwy o gyfleoedd yn y maes hwn a dylai gymryd mwy o gyfrifoldeb dros gynllunio deunyddiau yn y cyd-destun hwn.*

*Mae wedi rhannu deunyddiau gyda'r mentor ond mae angen datblygu'r maes hwn ymhellach; er enghraifft, rhannu deunyddiau gyda'i adran newydd ac adfyfyrio arnynt/gwerthuso'r defnydd ohonynt.*

*Mae Harry wedi defnyddio deunyddiau dysgu sy'n bodoli eisoes o fewn yr adran; dylai yn awr geisio ymchwilio i ddeunyddiau newydd a'u dylunio yn annibynnol*

**Targedau**

- *Ymchwilio yn annibynnol i ddeunyddiau arloesol (e.e. gweler y cyfeiriad at fideos uchod) a rhannu adnoddau newydd gyda chydweithwyr.*
- *Cynyddu'r cyswllt gyda'r tiwtor yn ystod amser ysgol*

**Arweinyddiaeth (gan gynnwys sgiliau llythrennedd personol, rhifedd a digidol)**

*Mae Harry wedi cefnogi'r athro cerdd gyda'r gerddorfa, gan wneud cyfraniad gwerthfawr gyda'i swsaffôn.*

*Mae ganddo ddealltwriaeth dda o bolisïau a sut i'w rhoi ar waith. Serch hynny, mae angen iddo ddatblygu gwell dealltwriaeth o effaith tlodi ar gyrhaeddiad a sicrhau bod ganddo ddisgwyliad uwch o blant â chyraeddiadau is.*

*Mae wedi gweithio'n effeithiol gyda'r Pennaeth Adran; dylid rhoi cyfle iddo arsylwi/gweithio gyda phennaeth blwyddyn yn ystod y cyfnod cynefino.*

*Gallai defnydd mwy effeithiol o dargedau wella deilliannau dysgwyr; dylid cysylltu hyn â sylwadau cynharach ynglŷn â disgwyliadau uchel a defnydd effeithiol o ddata cyrhaeddiad.*

**Targedau**

- *Mynd i gyfarfod bugeiliol gyda Phennaeth Blwyddyn*

*Cynyddu disgwyliadau plant â chyraeddiadau is*

| **Arloesi** | Crynodeb o'r llwyddiannau a'r meysydd i'w datblygu |
|---|---|

*Mae Harry yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau i ennyn diddordeb dysgwyr ond mae angen eu cysylltu'n agosach ag anghenion y dysgwyr. Mae angen rhagor o arloesi er mwyn mynd i'r afael â'r elfennau pedagogaidd a nodir uchod.*

*Mae'n dechrau defnyddio theori ac ymchwil i gynllunio gwersi'n effeithiol ond nid yw'n gwerthuso'r dysgu yn ddigon beirniadol.*

*Mae angen iddo rannu ei ddeunyddiau gyda chyfoedion yn ogystal â'r mentor (gweler y dimensiynau blaenorol).*

**Targedau**

- *Defnyddio damcaniaethau dysgu i ddadansoddi gwaith disgyblion ac ymatebion llafar (cysylltu hyn â dimensiwn PSTL blaenorol)*
- *Sefydlu cysylltiadau cryfach rhwng dysgu a rheoli ymddygiad*

| **Dysgu Proffesiynol (gan gynnwys sgiliau Cymraeg)** | Crynodeb o'r llwyddiannau a'r meysydd i'w datblygu |
|---|---|
| *Mae Harry yn deall pwysigrwydd mynd i'r afael â chamdybiaethau a dysgu trwy drafodaeth. Dylai ddarllen yn fwy eang i gefnogi'r meysydd a nodir uchod: cwestiynu, gwaith grŵp, sgiliau digidol a chefnogi plant â chyraeddiadau isel ac uchel.*<br>*Mae wedi dechrau casglu a dadansoddi tystiolaeth o ddysgu yn yr ystafell ddosbarth.*<br>*Mae'n defnyddio'r PLP yn effeithiol ac mae'n ymwybodol o'i anghenion datblygiadol. Mae'r dystiolaeth yn ddilys ac mae'n adfyfyrio'n feirniadol am ei pherthnasedd; mae'n ysgwyddo cyfrifoldeb cynyddol dros ei dargedau.*<br>*Mae'n rhugl ar lafar ond nid yw ei waith ysgrifenedig yn ddigon cywir; mae angen mwy o ofal wrth dreiglo* | |
| **Targedau**<br>• *Cwblhau'r dasg ymchwil weithredol broffesiynol*<br>• *Cefnogi targedau PSTL cynharach gyda darllen perthnasol.*<br>• *Sicrhau bod gwaith ysgrifenedig yn gywir (gan gynnwys deunyddiau dysgu ac addysgu).* | |

## Graddau

| | |
|---|---|
| **Addysgeg (cyfeiriwch at Ffurflenni Asesu Addysgeg)** | **B** |
| **Cydweithio** | **B** |
| **Arweinyddiaeth** | **A** |
| **Dysgu Proffesiynol** | |
| **Arloesi** | **B** |